**Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - Cam 1 craffu ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Rhesymol) (Cymru)**

**Tim Ruscoe tim.ruscoe@barnardos.org.uk**

**Mae'n bosib y caiff yr ymateb hwn ei wneud yn gyhoeddus**

## Cyflwyniad

Mae Barnardo's Cymru yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru ers dros 100 mlynedd ac mae'n un o'r elusennau plant mwyaf sy'n gweithio yn y wlad. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal 86 o wasanaethau amrywiol ledled Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â 16 o'r 22 awdurdod lleol. Y llynedd, buom yn gweithio'n uniongyrchol gyda mwy na 7,000 o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae Barnardo's Cymru wedi bod yn gefnogwyr brwd i'r ymgyrch i ddiddymu'r amddiffyniad cosb rhesymol ac rydym yn annog holl Aelodau'r Cynulliad i gymryd y cyfle yma i arwain y newid.

## 1 Egwyddorion cyffredinol y Bil

### 1.1 Ydych chi'n cefnogi egwyddorion y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Rhesymol) (Cymru)?

**YDYM**

### 1.2 Amlinellwch eich rhesymau dros eich atebion i gwestiwn 1.1

> *"Roeddwn i'n meddwl... os byddan nhw'n newid y gyfraith, bydd llawer o bobl yn sylweddoli beth gwnaethon nhw i'w plentyn a bydden nhw o bosib yn... hapus bod y gyfraith wedi cael ei newid. Os na fyddan nhw'n newid y gyfraith, bydden nhw'n meddwl 'does dim bwys gan y plentyn felly gallwn ni barhau i'w wneud'. Ond, os byddan nhw'n yn sylweddoli bod plant wedi siarad am y mater ag oedolion, dwi'n credu wedyn y bydden nhw'n sylweddoli ei fod yn brifo eu plentyn a byddan nhw'n flin â'u hunain." (merch saith oed)*[1]

[1] Achub y Plant 2004 http://www.crae.org.uk/media/26377/it-hurts-inside-summary-report.pdf

Bydd y plentyn saith oed a ddywedodd yr uchod yn 2004 yn ei hugeiniau canol bellach a tydi rhesymeg ac eglurder syml ei dadl heb gael ei wireddu mewn newidiadau i'r gyfraith hyd yma.

Mae Barnardo's Cymru o'r farn bod y Bil yn rhoi'r cyfle gorau i ddiddymu'r anghysondeb sy'n caniatáu mwy o ddiogelwch cyfreithiol i oedolion, yn gyffredinol y rhai sydd lleiaf agored i niwed, nag i bant sydd ymysg y rhai mwyaf agored i niwed.

Mae Barnardo's Cymru yn cefnogi egwyddorion a natur glir y Bil ac maent yn credu y dylai gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.
Fel darparwr allweddol gwasanaethau cymorth i deuluoedd, rydym yn credu y bydd yn helpu i gyflwyno opsiynau rhianta cadarnhaol am nifer o resymau.

1. Ni fydd yn creu trosedd newydd ond bydd yn diddymu amddiffyniad sydd ddim ar gael mewn troseddau eraill o drais yn erbyn person.
2. Bydd yn gwneud y sefyllfa'n eglur; beth sy'n gywir ac yn briodol a beth sy'n anghywir ac yn amhriodol.
3. Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant wedi barnu'r ffaith yn barhaus bod yr amddiffyniad hwn yn bodoli gan nad yw'n amddiffyn hawliau dynol plant. Er bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cyfeirio'n benodol at hawliau dynol plant, ystyrir nad yw'r amddiffyniad parhaus o gosb resymol yn diogelu'r hawliau dynol a ddisgrifir yn Natganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, sy'n berthnasol i bawb heb ystyried statws. Neges sy'n cael ei adleisio gan ymgyrchwyr yng Nghymru. Nid yw'r hawliau dynol a ymgorfforir yn y dogfennau hyn yn ddiamod, felly maent yn hollbwysig wrth ystyried hawliau amodol.
4. Mae'r ymchwil sydd wedi'i adolygu'n fwyaf trylwyr yn disgrifio'n ddigamsyniol y niwed i blant sy'n cael eu cosbi'n gorfforol.[2]
5. Mae'r ymchwil hefyd yn amlygu bod cosb gorfforol yn llai effeithiol wrth osod fframweithiau a ffiniau priodol sy'n cefnogi disgwyliadau o ran ymddygiad.
6. Yn ôl profiad ein staff cymorth i deuluoedd, mae peidio â defnyddio cosb gorfforol yn gallu arwain at fanteision sylweddol i deuluoedd; mae'n gwella rhianta cynnes a chefnogol gydag ymlyniad cryfach a pherthnasoedd tymor hir gwell. Wrth holi'n ddienw mewn ymgynghoriad blaenorol yn 2018, roedd 97% o staff Barnardo's Cymru ar draws yr holl swyddogaethau, gan gynnwys y tîm darparu gwasanaeth, yn llwyr gefnogol o newid y ddeddfwriaeth.
7. Nid yw geiriad y Bil yn awgrymu y dylai cyswllt cyffredin, gofalgar, corfforol a diogel gael ei ystyried yn anghyfreithiol neu'n amhriodol.

[2] https://www.researchgate.net/publication/299992592_Spanking_and_Child_Outcomes_Old_Controversies_and_New_Meta-Analyses).

8. Er ein bod yn cytuno nad yw'r defnydd presennol o gosb gorfforol yn arwain yn anochel at gamdriniaeth, roedd defnydd o gosb gorfforol yn ffactor yn yr achosion mwyaf adnabyddus o gamdriniaeth ddifrifol. Ym mwyafrif o'r achosion hyn, roedd diffyg eglurder yn arwain yn aml at gymdogion, aelodau o'r teulu, ffrindiau, a hyd yn oed gweithwyr proffesiynol yn teimlo'n ansicr am beth i'w adrodd.
9. Bydd y Bil yn cydfynd â barn y cyhoedd. Mae defnydd o gosb gorfforol a'r agweddau tuag at gosb gorfforol wedi bod yn newid. Mae llai o gefnogaeth ar gyfer cosb gorfforol a'r defnydd ohoni, ond mae dal taith hir o'n blaenau. Bydd y Bil yn rhoi arweiniad sylweddol gan y Llywodraeth a'r Cynulliad gan gyfleu'r gymdeithas sy'n parchu hawliau teg yr ydym yn awyddus i fod.

*"Rydw i'n meddwl ei bod yn hen bryd newid y gyfraith oherwydd mae angen i ni gyfleu'r neges nad yw'n dderbyniol defnyddio trais yn erbyn plant. Bydd plant yn cael eu hamddiffyn yn well, a drwy gynnig gwahanol strategaethau rhianta, bydd plant yn hapusach, yn iachach ac yn ymddwyn yn well. Bydd y manteision hyn yn cael eu pasio ymlaen i'r genhedlaeth nesaf" (aelod o staff Barnardo's Cymru, 2018)*

*"Sut mae taro eich plentyn yn mynd i'w helpu? Mae'n drais ac yn gamdriniaeth a DDIM YN DDERBYNIOL. Dylid cael gwared â'r gyfraith sy'n caniatáu hyn." (Person ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau Barnardo's Cymru, 2018)*

## 1.3 Ydych chi'n meddwl bod angen deddfwriaeth i gyflwyno'r hyn mae'r Bil yn ceisio ei gyflawni?

**YDYM**

Y Bil hwn yw'r ffordd symlaf o newid y gyfraith er mwyn diddymu'r amddiffyniad cosb rhesymol.

Fel cenedl, mae gennym brofiad blaenorol o geisio newid agwedd y cyhoedd a disgwyliadau a ffiniau cymdeithas. Er mwyn cyflawni'r newidiadau hyn megis ysmygu mewn mannau cyhoeddus, ysmygu mewn ceir â phlant, a gwisgo gwregys diogelwch, roedd rhaid gwneud newidiadau i'r gyfraith i wreiddio pwysigrwydd a synnwyr cyffredin y newidiadau. Er y cyflwynwyd llawer o ddadleuon i'r gwrthwyneb yn erbyn y newidiadau hyn ar y pryd, dim ond ychydig iawn o bobl sy'n meddwl bod y dadleuon hynny yn ddilys heddiw.

Mae'r newidiadau hynny i'r gyfraith yn gosod y safon, a bydd yr achos yma'n gwneud yr un fath.

Fel nodwyd, rydym o'r farn y bydd natur eglur y Bil yn cyflawni'r canlyniadau dymunol drwy'r llwybr symlaf posibl.

Rydym wedi darllen a gwrando ar ddadleuon nad yw'r gyfraith fel y mae ar hyn o bryd yn ddigonol. Mae Barnardo's Cymru o'r farn nad yw'r gyfraith fel y mae ar hyn o bryd yn ddigonol, ac weithiau'n ddiffygiol o ran amddiffyn plant.
O dan y gyfraith ar hyn o bryd:

- Mae cosb gorfforol wedi ymddangos mewn achosion adnabyddus o gam-drin difrifol sydd wedi arwain at ymateb cryf iawn gan y cyhoedd.
- Mae integriti personol plant yn cael ei beryglu oherwydd eu hoed a'u statws.
- Mae hawliau dynol unigolyn yn cael eu peryglu, ac
    - Efallai yr ystyrir bod gwladwriaethau'n fwriadol deallus oyn hyn o beth.
- Mae dryswch yn arwain at sefyllfaoedd lle mae trais fel cosb yn ymddangos yn dderbyniol hyd yn oed yn haeddiannol ac yn ffordd ddilys o ddatrys anghytundeb.
- Er bod llawer o weithredu yn erbyn trais domestig, mae drais sy'n cael ei ganiatau mewn sefyllfaoedd domestig.
- Mae ymatebion treisgar yn cael eu dysgu.
- Mae ddiffyg eglurder yng nghyswllt cosb gorfforol yn gwneud plant yn fwy agored i niwed.
- Mae oed a statws yn llywio eich disgwyliadau o ddiogelwch dan gyfraith rhag trais.

*"Rydw i'n llwyr cytuno. Os byddwn i'n taro oedolyn, byddwn yn cael fy erlyn am ymosod - sut ar y ddaear ydym ni wedi cael ein hesgusodi i wneud hyn i'n plant cyhyd? (Aelod o staff Barnardo's Cymru, 2018)*

## 2 Gweithredu'r Bil

### 2.1 Oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw rwystrau posibl i weithredu'r Bil?

Mae gwerth unrhyw ddeddfwriaeth yn seiliedig ar ei gweithredu'n effeithiol. Gan fod hyn yn fater hirsefydlog, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau breision ac effeithiol i ddarparu cefnogaeth rhianta cadarnhaol. Gwaith y grŵp gweithredu fydd sicrhau fod hyn yn datblygu ac yn gwella ymhellach eto.

Hyd heddiw, cryfder datblygiadau Llywodraeth Cymru yw ei natur anfeirniadol, hygyrch ac ar sail adnoddau, a rhaid i hynny barhau fel thema.

Mae’n debygol mai her fwyaf y grŵp gweithredu fydd taro cydbwyso mewn ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd yn berffaith. Negeseuon syml a chlir am beth fydd y newid yn ei olygu i bob teulu yng Nghymru; chwalu wybodaeth anghywir ac ymgyrchu maleisus, a hyrwyddo natur gadarnhaol y newidiadau ar gyfer teuluoedd, eu plant, a phlant Cymru i’r dyfodol.

Mae Barnardo's Cymru yn gweld rôl allweddol i ni ac i gydweithwyr y trydydd sector, nid yn unig o ran hwyluso’r datblygiad parhaus o adnoddau, ond yn fwy allweddol mewn unrhyw ymgyrch codi ymwybyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd.

> *“Byddwn yn hynod falch o fyw mewn gwlad sy’n darparu diogelwch cyfraith cyfartal i aelodau mwyaf agored i niwed ein cymdeithas.” (Aelod o staff Barnardo's Cymru, 2018)*

### 2.2 Ydych chi’n credu bod y Bil yn ystyried y rhwystrau potensial hyn?

Nid yw’r hyn rydym yn eu hystyried yn 2.1 o reidrwydd yn rhwystrau, ond yn hytrach yn ystyriaethau gweithredu. Nid ydym yn ceisio gwneud newidiadau i wyneb y Bil gan ein bod yn croesawu ei eglurder fel y mae wedi’i gyflwyno.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd y grŵp gweithredu o ran gwreiddio’r ddeddfwriaeth.

Rydm yn nodi bod rhai cwestiynau wedi cael eu codi o ran rhoi’r y ddyletswydd o hysbysu'r cyhoedd ar wyneb y Bil. Byddai Barnardo's Cymru yn awgrymu y dylai’r Bil gael ei gadw’n syml gyda swyddogaeth statudol ychwanegol wedi’i ddisgrifio yn yr is-ddeddfwriaeth.

## 3 Canlyniadau anfwriadol

### 3.1 Ydych chi’n meddwl bod y Bil yn arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol? Os nac ydy, ewch i gwestiwn 4.1

NAC YDY

Mae Barnardo’s Cymru yn derbyn yn llwyr y byddai cael gwared ar amddiffyniad yn gallu arwain at erlyniadau fel canlyniad disgwyliedig. Pan fydd sefyllfa o drais yn arwain at broses gyfreithiol, ac o bosib at euogfarn, rydym ni o’r farn mai dyma’r canlyniad priodol fel y byddai gyda thrais rhwng oedolion.

Dydyn ni ddim yn cytuno ag unrhyw ddamcaniaeth y byddai cael gwared ar yr amddiffyniad yn arwain at y nifer enfawr o rieni yn cael eu herlyn fel troseddwyr, fel yr awgrymwyd gan rai safbwyntiau cyferbyniol. Mae Barnardo's Cymru hefyd yn credu y bydd canolbwyntio ar rymuso gweithredu yn mynd i'r afael ag ofn o’r fath.

## 4 Goblygiadau ariannol

### 4.1 Oes gennych chi unrhyw sylwadau am oblygiadau ariannol y Bil (fel y mae wedi’i nodi yn Rhan 2 o’r Memorandwm Esboniadol)?

Mae’r asesiad yn y Memorandwm Esboniadol yn ddefnyddiol, ond mae’n awgrymu'r swm yn y sefyllfa waethaf bosib, lle nad oes modd cynnwys rhagolwg o’r arbedion tymor hir a wneir wrth ymyrryd yn gynnar.

Os ydym am ystyried y goblygiadau cost posib yn sgil ymyriadau ychwanegol neu ymchwiliadau gan Wwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron; dylem allu awgrymu hefyd bod gwneud cwyn ac ymchwilio yn arwain at ymyriad cynharach. Yn sgil hynny, dylem hefyd ystyried yr arbedion tebygol o orfod gwneud ymyriadau diweddarach, a mwy cymhleth fel arfer. Yn ôl ffigurau sydd eisoes wedi’u cyflwyno i’r pwyllgor, a gafwyd gan yr Early Intervention Foundation, roedd ymyriadau hwyr wedi costio cyfanswm o £1.15 bn ar gyfer 2014-15 yng Nghymru.

Erbyn hyn, rydym yn gyfarwydd iawn ag effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yng Nghymru (ACE), ac yn derbyn bod lleihau’r profiadau hynny ymysg plant yn gwella eu canlyniadau yn ystod eu plentyndod a phan fyddant yn oedolion. Mae presenoldeb trais mewn teuluoedd yn brofiad niweidiol y mae angen rhoi sylw iddo.

Mae profiad Barnardo’s Cymru yn awgrymu bod cael gwared ar yr amddiffyniad, gan gynnig opsiynau cadarnhaol yn lle hynny, yn siŵr o arwain at arbedion tymor hir i gymdeithas yn ehangach.

> *“Cytuno’n llwyr* [â’r newidiadau yn y gyfraith] *ond bydd angen mwy o gefnogaeth. Yn enwedig gan eu bod yn cael gwared ar lawer o*

*wasanaethau blynyddoedd cynnar." (Rhiant sy'n defnyddio gwasanaethau Barnardo's Cymru, 2018)*

## 5 Ystyriaethau Eraill

### 5.1 Oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu nodi am y Bil?

Mae Barnardo's Cymru yn croesawu'r Bil a'r hyn mae'n ei gynrychioli i blant, i deuluoedd ac i gymdeithas yng Nghymru.

Yn ein barn ni, mae'r Bil fel y mae wedi'i gyflwyno yn cynnig ateb ymarferol a syml i sicrhau newid cadarnhaol o'r fath.

Mae'n gadarnhaol o ran diogelu a hyrwyddo hawliau dynol; yn gadarnhaol o ran sicrhau bod ein plant a'u dyfodol yn cael eu gwarchod yn well, ac yn gadarnhaol o ran helpu rhieni i ddarparu perthynas gariadus ac ofalgar lle nad oes angen poeni am drais.